Te yn y Grug

Yn 2019, bydd hi'n drigain mlynedd ers cyhoeddi un o gyfrolau eiconig yr iaith Gymraeg, *Te yn y Grug* gan Kate Roberts, Bydd hyn yn cael ei ddathlu gan yr Eisteddfod Genedlaethol yn y gymuned ac yn ystod yr ŵyl a gynhelir yn Sir Conwy o 2-10 Awst 2019.

Rydym yn awyddus i gomisiynu unigolion neu dîm creadigol, sef cyfansoddwr/wyr ac awdur geiriau (barddoniaeth / llenyddiaeth / drama) i gyfansoddi cyfanwaith ar gyfer amrywiaeth o artistiaid, e.e. unawdwyr, corau, llefarydd a cherddorfa.

Hwn fydd un o gyngherddau mawr Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019, ac fe fydd yn ail-ddehongliad o'r gyfrol, gan gyflwyno Begw, Wini Ffini Hadog a chymeriadau eraill i gynulleidfa a chenhedlaeth newydd. Byddwn yn edrych ar themau'r gyfrol er mwyn dysgu mwy am dreftadaeth yr ardal a'r cyfnod.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddiolchgar iawn i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am gefnogi'r prosiect trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Dyddiad cau: 29 Mehefin 2018.

Te yn y Grug

2019 marks sixty years since the publication of one of the Welsh language's most iconic volumes, *Te yn y Grug* by Kate Roberts. This will be celebrated by the National Eisteddfod, both at the festival which is held in Conwy County from 2-10 August 2019 and in the community.

We are eager to commission a person or creative team, namely composer/s and librettist (poetry / prose / drama) to create a major work for various artists e.g. soloists, choirs, narrator and orchestra

This will be one of the Conwy County National Eisteddfod flagship concerts, and will be a re-interpretation of the much loved volume, introducing Begw, Wini Ffini Hadog and the other characters to a brand new generation and audience. We will be exploring a wide range of themes to learn more about local heritage and life at the beginning of the twentieth century.

The National Eisteddfod is grateful to National Lottery players for supporting this project through the Heritage Lottery Fund.

Closing date: 29 June 2018.

Te yn y Grug

Briff:

Ein bwriad yw cyflwyno un o weithiau llenyddol mwyaf eiconig yr iaith Gymraeg, *Te yn y Grug*, gan Kate Roberts, 'brenhines ein llên' i genhedlaeth a chynulleidfa newydd drwy roi gwedd newydd ar gynnwys a themau'r gyfrol.

Cyhoeddwyd y gyfrol drigain mlynedd yn ôl yn 1959, a bwriad yr Eisteddfod Genedlaethol yw dathlu hyn fel rhan o brifwyl Sir Conwy 2019.

Y gobaith yw creu cyfanwaith cerddorol a geiriol sydd wedi'i ysbrydoli gan *Te yn y Grug* ac a fydd yn cael ei berfformio yn ystod yr Eisteddfod. Bydd hwn yn gyfanwaith gwreiddiol wedi'i greu gan dîm creadigol fydd yn cynnwys bardd / libretttydd a chyfansoddwr / wyr.

Dyma fydd prosiect Côr yr Eisteddfod 2019, gyda'r ymarferion yn cychwyn yn hydref eleni a phremiere byd ar lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod yn Llanrwst ym mis Awst 2019. Côr yr Eisteddfod yw un o brosiectau gwirfoddoli ac addysg gydol-oes mwyaf Cymru, ac mae'n denu 150-200 o gantorion amatur o bob rhan o ddalgylch yr Eisteddfod yn flynyddol.

Mae'r prosiect hwn yn agor y drws i ryfeddodau plentyndod yn seiliedig ar ei phrofiad o dyfu i fyny yn ardal chwarelyddol y gogledd orllewin. Ein huchelgais ni yw dod â'r rhyfeddodau plentyndod a geir yng nghyfrol *Te yn y Grug* yn fyw unwaith eto i gynulleidfa newydd yn nalgylch yr Eisteddfod ac ar draws Cymru.

Mae themau'r gyfrol yn oesol. Mae'r teulu'n thema greiddiol a chanolog i'r gwaith ynghyd â'r cartref, amaeth a'r gymdogaeth - mae'r ymdeimlad o gymuned yn rhedeg fel edau drwy'r gyfrol, ac mae hyn yn berthnasol ac yn bwysig i'r Eisteddfod hefyd, gan eu bod yn cloriannu amcanion ein prosiect cymunedol.

Am fwy o wybodaeth am Kate Roberts a *Te yn y Grug*, ewch i:

http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/awduron/kate-roberts-te.shtml

https://waleslitexchange.org/en/books/view/te-yn-y-grug-tea-in-the-heather

Gweledigaeth Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy:

Fel gŵyl a phrosiect cenedlaethol, sy'n ddathliad o ddiwylliant a threftadaeth Cymru gyfan, mae'n hollbwysig bod cynnwys artistig yr Eisteddfod Genedlaethol yn gallu cystadlu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, ond heb golli'r elfen o berthyn i'r gymuned leol.

Mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Conwy yn hynod awyddus i weld tîm creadigol y prosiect hwn yn perchnogi'r themâu cryf yn y gyfrol *Te yn y Grug*, ac yn sicrhau perthnasedd i dirwedd, treftadaeth a thrigolion Sir Conwy. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy sesiynau cymunedol a fydd yn tynnu pobl o bob rhan o Sir Conwy, o bob cefndir ac o bob oed i fod yn rhan o'r prosiect. Mae'r Pwyllgor hefyd yn

awyddus i weld elfennau o ddiwylliant yr ardal yn cael eu gwau i mewn i'r cyfan-waith, naill ai mewn modd theatrig neu gerddorol e.e. mae Dyffryn Conwy'n ardal bwysig iawn yng nghyd-destun y delyn deires, a bydd eisiau ystyried elfennau fel hyn wrth greu'r gwaith.

Elfennau Creadigol:

Rydym yn awyddus i gomisiynu unigolion neu dîm creadigol, sef cyfansoddwr/wyr ac awdur geiriau (barddoniaeth / llenyddiaeth / drama) i gyfansoddi cyfanwaith ar gyfer amrywiaeth o artistiaid, e.e. unawdwyr, corau, llefarwyr a cherddorfa.

Mae croeso i chi ymgeisio fel unigolyn sydd eisiau bod yn rhan o dîm neu fel tîm cyfan o bobl.

Dylid nodi nad oes rhaid i chi fod â phrofiad helaeth o osod cerddoriaeth ar gyfer cerddorfa / côr. Gallwn gefnogi hyn mewn sawl ffordd yn ystod y broses.

Rydym yn gofyn i chi rannu'ch gweledigaeth artistig gyda ni, yn ogystal ag esiam-plau o waith creadigol.

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i'r tîm creadigol fod yn rhan o ddigwyddiadau / gweithdai cymunedol yn Sir Conwy.

Llinell Amser:

Mae'r prosiect yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2018, gyda chyfweliadau'n cael eu cynnal ar 6 Gorffennaf. Bydd disgwyl i'r tîm creadigol gyflwyno'r gwaith yn bryd-lon mewn tri rhan:

- **Rhan 1** – Hydref 2018
- **Rhan 2** – Ionawr 2019
- **Rhan 3** – Mawrth 2019

Bydd disgwyl i'r tîm creadigol gyflwyno elfennau'r o'r gwaith i'r Tîm Artistig wrth iddo ddatblygu yn ystod y broses greu.

Fel rhan o waddol y prosiect, mae'n bwysig fod y gwaith yn hyblyg fel adnodd ar gyfer y dyfodol, e.e. darnau unigol, cyfeiliant mwy syml, darnau i amrywiol fathau o gorau ayyb.

Cyllideb:

Mae cyfanswm o £15,000 wedi ei glustnodi ar gyfer y tîm creadigol cyfan - bydd y ffi yn cael ei rhannu'n gyfatebol yn ôl y gwaith.

Ymgeisio:

Mae angen i unrhyw un sydd â diddordeb yn y prosiect anfon y canlynol atom

drwy ebost:

- Llythyr byr yn nodi'ch diddordeb, ynghyd â CV cryno a pherthnasol
- Amlinelliad byr o'ch gweledigaeth ar gyfer y cyfanwaith, e.e. syniad o'r arddull gerddorol / lenyddol a'r delweddau yr hoffech eu defnyddio
- Enghreifftiau addas o'ch gwaith y gellir eu hanfon yn ddigidol neu ar ddisg / copi caled
- Manylion canolwr. Dylai hwn / hon fod yn rhywun rydych wedi cydweithio â hwy'n artistig

Dyddiad cau:

29 Mehefin 2018. Cynhelir y cyfweliadau ddydd Gwener 6 Gorffennaf.

Manylion cysylltu:

Ebost: te.ynygrug@gmail.com
Rhif ffôn: 0845 4090 400

Te yn y Grug

Brief:

Our aim is to present one of the Welsh language's most iconic literary works, *Te yn y Grug* by Kate Roberts, known as the 'Queen of Welsh literature' to a new generation and audience by looking again at its themes.

The collection of short stories was published sixty years ago in 1959, and the National Eisteddfod will celebrate this milestone as part of the Conwy County festival in 2019.

This is the 2019 Eisteddfod Choir project, with rehearsals starting in the autumn of this year, and a world-wide premiere on the Eisteddfod Pavilion stage in llanrwst in August next year. The Eisteddfod Choir is one of Wales' largest volunteering and lifelong learning projects, which attracts 150-200 amateur singers from the festival catchment area annually.

This project opens the door to the marvels of childhood based on the author's experience growing up in the quarrying district of north west Wales. Our ambition is to bring the themes within these stories alive to a new audience locally and nationally.

The themes are timeless. The family is an integral and central theme, as are the home and the community, running like a thread through the stories. These are also important to the Eisteddfod, as they epitomise the aims of our community project.

For more information on Kate Roberts and *Te yn y Grug*, go to:

http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/llyfrau/awduron/kate-roberts-te.shtml

https://waleslitexchange.org/en/books/view/te-yn-y-grug-tea-in-the-heather

Conwy County National Eisteddfod's Vision:

As a national project and festival celebrating the culture and heritage of the whole of Wales, it is vitally important that the National Eisteddfod's artistic content is able to compete at national and international level, without losing the vital element of belonging to the local area.

The Conwy County Eisteddfod Executive Committee is keen to see the creative team building on the strong themes in *Te yn y Grug*,making them relevant to the landscape, heritage and people within the county. This will be done through community sessions, bringing together people from across the region, from all backgrounds and ages to be part of the project.

The Committee also wishes to see elements of local culture woven into the completed work, either theatrically or musically. The Conwy Valley and Llanrwst in particular played an important role in the story of the Welsh triple harp, and the

committee wish this to be considered when creating the work.

Creative Elements:

We are keen to commission an individual or creative team, including a composer/s and writer (poetry / literature / drama) to create a major work for various artists e.g. soloists, choirs, narrator and orchestra.

Individuals may apply to become part of a team, or we welcome applications from established creative teams.

Please note that you do not have to be an experienced orchestrator or choral arranger. We can support this in a number of ways during the process.

We ask that you share your artistic vision with us, as well as examples of your creative work.

We may ask the creative team to be part of events and community workshops in Conwy County.

Timeline

The project begins in July 2018, with interviews held on 6 July. The creative team will be expected to present the finished work in three stages:

Stage 1 – October 2018
Stage 2 – January 2019
Stage 3 – March 2019

The creative team will also be expected to present elements of the work to the artistic team as it develops during the creative process.

The work must be able to be used in a number of ways in the future, as solos, songs with simpler accompaniment, and pieces for various types of choirs and vocal ensembles etc.

Budget:

£15,000 in total has been allocated for the whole creative team. The fee will be shared accordingly.

Applying:

Anyone interested in applying for the project needs to supply the following:

- Short letter outlining your interest and a relevant CV;
- Short outline of your vision for the work, i.e. an idea of the musical / literary genre and visual style;
- Relevant examples of work you can either send digitally or on disc / hard

copy
- Contact details for someone who has worked with you on an artistic project

Closing date:

29 June 2018. The interviews will be held on Friday 6 July.

Contact details:

Email: te.ynygrug@gmail.com
Tel: 0845 4090 400